

Adroddiad Grŵp Prosiect BGC

Paratowyd gan: Anwen Thomas & Sara Dafydd

Nod Cynllun Llesiant	Bydd pob prosiect peilot sy'n seiliedig ar lefydd yn anelu at fynd i'r afael â'r 6 nod llesiant fel yr amlinellir yng Nghynllun Llesiant Lleol 2018-23, gan gyflenwi drwy fframwaith yn seiliedig ar lefydd. Mae'n blaenoriaethu integreiddio a chyfrannu ar gyfer cydnerthedd cymunedau ac unigolion.
Ein Gwerthoedd	Y Gymraeg, Taclo Anghydraddoldeb, Cymryd Rhan, Cynaliadwyedd, Arwain drwy EsiampI
Enw Grŵp Prosiect	Gwella Lles Cymunedol a Mynd i'r Afael a Chaledi yn Aberteifi
Cadeirydd	Hazel Lloyd-Lubran, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion (CAVO)

Aelodaeth y Grŵp Prosiect (Yr enwau mewn print **trwm** oedd yn bresennol yn y cyfarfod)

Cyngor Sir Ceredigion	Cllr Elaine Evans , Llyr Hughes, Non Davies, Meleri Richards, Mari Hopkins , Rob Starr, Carys Owens , Cerys Purches-Phillips, Martin Gillard, Catrin George, Catrin Cond , Alison Heal, Dr Sarah Groves Phillips, Connor Cook, Bethan James, Mari Hopkins, Cathryn Morgan, Carwyn Young Tim Cefnogi'r BGC: Naomi McDonagh, Sara Dafydd , Lynne Walters, Anwen Thomas	Cyfoeth Naturiol Cymru	Thomas Vetter, Aled Davies, Rachel Jarvis , Peter Frost, Sarah Coakham
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda	Vicki Howell-Williams, Sue John, Terri-Ann Patrick, Jackson Reynolds	Iechyd Cyhoeddus Cymru	Megan Harris, Jan Batty

Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru	William Bowen, Wayne Thomas , Ritchie Felton	Barcud Ceredigion	Catrin Owen, Sue Thomas
Swydd Ben Lake	Carys Lloyd	CAVO	Chesca Ross
Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru	Roxanne Treacy, Vikki Butler	Tai Wales & West	Rhiannon Ling , Elizabeth Morgan
Cyngor ar Bopeth Ceredigion	Glynis Llewelyn, Rebecca Kirby, Juliet Morris		

CRYNODEB O GYFARFOD GRŴP PROSIECT

Pwyntiau Allweddol a drafodwyd yng nghyfarfod y Grŵp Prosiect: 18.04.23

10.1 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau:

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod. Nodwyd ymddiheuriadau'r canlynol:

Vicki Howell-Williams, Aled Davies, Caitlin Theodorou, Glynis Llywelyn, Juliet Morris, Martin Gillard, Meleri Richards, Rob Starr, Eleanor Haines. Gwahoddwyd cynrychiolwyr grwpiau cymunedol o ardal Aberteifi i fynychu rhan gyntaf y cyfarfod i glywed y cyflwyniadau ar ddata Cyfrifiad 2021 a Diweddariad Adroddiad Sylfaenol.

Rhan 1:

10.2 Canlyniadau Cyfrifiad 2021: Data ar gyfer Aberteifi

Eglurodd Mari Hopkins (MaH) ers i Caitlin Theodorou fynychu cyfarfod o'r is-grŵp BGC llynedd i gyflwyno data'r Cyfrifiad, rhyddhawyd data newydd ers hynny mewn perthynas ag Aberteifi a'r ardaloedd cyfagos. Mae'r Cyfrifiad yn gofyn cwestiynau amdanoch chi, eich cartref a'ch cartref. Mae'n digwydd bob 10 mlynedd ac mae ei ganlyniadau yn rhoi darlun i ni o holl bobl a chartrefi Cymru. Mae'r Cyfrifiad yn helpu i lywio penderfyniadau lleol a chenedlaethol. Roedd ambell beth newydd yng Nghyfrifiad 2021 - roedd Cyfrifiad 2021 ar gael yn ddigidol am y tro cyntaf oedd yn golygu bod 47% o aelwydydd yng Ngheredigion yn derbyn ffurflenni papur i'w hateb, tra bod 53% wedi derbyn cod i gwblhau eu ffurflen ar-lein. Gofynnwyd ychydig o gwestiynau newydd hefyd, yn ymwneud â'r Lluoedd Arfog, Cyfeiriadedd Rhywiol a Hunaniaeth Rhywedd. Ystyriwyd bod Cyfrifiad 2021 yn llwyddiannus iawn, gyda 97% o aelwydydd yng Nghymru a Lloegr yn ymateb a phob un o'r Awdurdodau lleol wedi gweld dros 90% o'u cartrefi yn ymateb. Roedd y ddau ffigwr hyn yn uwch na'r targedau a bennwyd cyn y Cyfrifiad. Mae Cyfrifiad yn gipolwg mewn amser ac yn adlewyrchu'r sefyllfa

ar yr adeg y cafodd y Cyfrifiad ei ateb. Gyda hyn mewn ystyriaeth, cynhaliwyd Cyfrifiad 2021 yn ystod anterth pandemig Covid-19, a rhaid ystyried a allai hyn fod wedi effeithio ar sut roedd pobl yn ateb y cwestiynau a sut yr effeithiodd hyn ar y data.

Yn y cyflwyniad diwethaf, cyflwynodd Caitlin ddata ar feysydd crynodeb Demograffeg a Mudo a chrynodeb maes Cyn-filwyr y Lluoedd Arfog. I grynhoi, roedd gan bob un o'r tair ardal Aberteifi ganran uwch o aelwydydd, wedi'u hamddifadu mewn o leiaf un dimensiwn, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru. Ardal Aberteifi ac Aberporth oedd â'r ganran uchaf o unigolion oedd wedi gwasanaethu yn y lluoedd arfog o'r blaen.

Data ethnig, hunaniaeth, iaith a chrefydd:

Mae mwyafrif y boblogaeth ym mhob un o'r 3 ardal yn adnabod eu hunain yn Wyn. Mae gan ardaloedd Mwldan a Rhyd-y-Fuwch ganran uwch o bobl sy'n adnabod eu hunain yn wyn na chyfartaledd Ceredigion o 96.2%. Mae gan ardal Teifi gyfansoddiad ychydig yn wahanol, ac mae'n ganran ychydig yn is o'i phoblogaeth sy'n adnabod eu hunain yn wyn, 94.4%. Mae 2.2% o'i phoblogaeth yn adnabod eu hunain yn Gymry Asiaidd, Asiaidd Prydeinig neu Asiaidd. Mae gan ardal Teifi hefyd ganran uwch o bobl sy'n adnabod fel grŵp ethnig arall, grŵp ethnig cymysg neu luosog a du, du Prydeinig, Cymry du, Caribiaidd neu Affricanaidd, o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion.

Iaith:

Mae gan ardal Rhyd-y-Fuwch a Teifi ganran uwch o bobl nad ydynt yn gallu siarad Saesneg yn dda, o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion o 0.3% a chyfartaledd Cymru o 0.6%. Mae gan ardal Rhyd-y-Fuwch ganran ychydig yn uwch o'r rhai nad ydynt yn gallu siarad unrhyw Saesneg o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion o 0% a chyfartaledd Cymru o 0.1%.

Cymraeg:

Ym mis Medi 2011 mae pob un o'r 3 ardal Aberteifi wedi gweld gostyngiad yng nghanran ei phoblogaeth 3 oed neu hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg. Mae ardal Rhyd-y-Fuwch Aberteifi wedi gostwng fwyaf, gyda gostyngiad o 8.5 pwynt canran ers Cyfrifiad 2011. Fodd bynnag, mae gan ardal Rhyd-y-Fuwch ganran ychydig yn uwch o siaradwyr Cymraeg o hyd o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion. Ardal Teifi yw'r unig ardal allan o'r 3 yma sydd â chanran is o siaradwyr Cymraeg na chyfartaledd Ceredigion o 45.2%.

Tai:

Defnyddir aelwydydd heb wres canolig yn aml fel data dangosyddion gan MALIC (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru) sy'n helpu i adnabod aelwydydd a allai fod yn byw mewn tloedi neu galedi. Mae data Cyfrifiad 2021 yn dangos bod gan Geredigion ganran uwch o aelwydydd heb wres canolog, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 1.2%. Mae gan ardal Teifi ganran ychydig yn uwch o

aelwydydd heb wres canolog o'i gymharu â chyfartaledd Ceredigion. Mae gan ardal Rhyd-y-Fuwch a Mwldan ganran isaf o aelwydydd heb wres canolog i o'i gymharu â chyfartaledd Cymru a chyfartaledd Ceredigion. Pan gymharir y data hwn â'r un set ddata o Gyfrifiad 2011, mae pob ardal wedi gweld dirywiad yng nghanran yr aelwydydd heb wres canolog ers 2011.

Cyfeiriadedd rhywiol:

Gofynnwyd i ymgeiswyr am eu cyfeiriadedd rhywiol. O'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, Ceredigion oedd â'r ganran isaf o bobl yn nodi eu bod yn syth neu'n heterorywiol, gyda 84.7%. Ceredigion oedd â'r ganran uchaf o ymatebwyr a nododd eu bod yn ddeurywiol a'r ganran uchaf o ymatebwyr a nododd eu bod yn 'Pob cyfeiriadedd rhywiol arall' ledled Cymru. Ardal Aberteifi ac Aberporth, ynghyd ag ychydig o rai eraill, oedd â'r ganran isaf o bobl yn nodi eu bod yn hoyw neu lesbiaidd yng Ngheredigion, gyda dim ond 0.8%.

Hunaniaeth rhywedd:

Yng Nghymru, Ceredigion oedd â'r ganran isaf o ymatebwyr a nododd fod eu hunaniaeth rhywedd 'yr un rhyw ag a gofrestrwyd adeg geni'. Hefyd, Ceredigion oedd â'r ganran uchaf o ymatebwyr 16 oed neu'n hŷn a adnabu eu hunain fel 'pob hunaniaeth rhywedd arall' o'i gymharu â phob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru.

Addysg:

Mae'r data ar ddim cymwysterau yn darparu rhywfaint o ddata dangosyddion da. Yn gadarnhaol, gallwn weld bod pob un o'r 3 ardal Aberteifi wedi gweld gostyngiad yng nghanran y bobl heb gymwysterau ers 2011. Ond yn 2021 mae gan bob un o'r 3 ardal ganran uwch o bobl heb unrhyw gymwysterau na chyfartaledd Ceredigion o 14.7%. O'r 3 ardal, ardal Rhyd-y-fuwch sydd â'r ganran uchaf o bobl heb unrhyw gymwysterau gyda 22.9%.

Problemau iechyd neu anabledd hirdymor:

Ers 2011, mae ardaloedd Mwldan a Rhyd-y-Fuwch ill dau wedi gweld gostyngiad yng nghanran y bobl sy'n byw gyda phroblem iechyd neu anabledd hirdymor. Ond mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos i ni fod canran y bobl sy'n byw gyda phroblem iechyd neu anabledd hirdymor yn y ddwy ardal hon yn uwch na chyfartaledd Ceredigion o 21.9%. Mae ardal The Rhyd-y-Fuwch yn parhau i fod â'r ganran fwyaf o bobl sy'n byw gyda phroblem iechyd neu anabledd hirdymor, allan o'r 3 ardal yn Aberteifi, gyda 29.7% o'i phoblogaeth. Mae ardal Teifi wedi gweld cynnydd o 3.1% yng nghanran y bobl sy'n byw gyda phroblem iechyd neu anabledd hirdymor, ers 2011. Er bod y ganran yn llai nag ardal Rhyd-y-Fuwch, mae'n 5.5% yn uwch na chyfartaledd Ceredigion.

Gofal di-dâl:

O edrych ar y rhai a ddywedodd eu bod yn darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos, mae'r canlyniadau ar gyfer ardaloedd Teifi a Mwldan yr un fath â'r rhai ar gyfer Ceredigion, sef 5.2%. Mae gan ardal Rhyd-y-Fuwch ganran is sef 3.9% yn darparu 19 awr neu lai o ofal di-dâl yr wythnos. O edrych ar y rhai sy'n darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos, mae gan bob un o'r tair ardal Aberteifi ganran uwch o bobl sy'n darparu 20 i 49 awr o ofal di-dâl yr wythnos na chyfartaledd Ceredigion o 1.9%. Ardaloedd Teifi a Mwldan sydd â'r ganran uchaf gyda 2.5% gydag ardal Rhyd-y-Fuwch ond ychydig ar ei hôl hi gyda 2.4%. O edrych ar y rhai sy'n darparu 50 awr neu fwy o ofal di-dâl yr wythnos, unwaith eto, mae gan bob un o'r tair ardal Aberteifi ganran o 3.8%, sy'n uwch na chyfartaledd Ceredigion o 3.4%.

10.3 Diweddariad Adroddiad Sylfaen Aberteifi

Nid oedd Rob Starr (RS) yn gallu mynychu'r cyfarfod ond roedd wedi recordio cyflwyniad cyn y cyfarfod a rannwyd gan MaH. Darparodd RS grynodedb o'r Adroddiad Sylfaenol gwreiddiol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023. Mae'r fim yn aros nes i fwy o ddata gael ei gyhoeddi i ddiweddaru a chyhoeddi'r fersiwn derfynol.

Mae ardal Aberteifi yn cynnwys y 3 ardal, Teifi, Mwldan a Rhyd-y-Fuwch a phrif ffocws y prosiect yw ardaloedd Teifi a Rhyd-y-Fuwch. Ardaloedd bach o fewn y sir yw rhain sy'n caniatáu canolbwyntio ar ardal lai.

3 pennawd / i'w hystyried:

- Teifi a Rhyd-Y- uwch o hyd yw'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Ngheredigion.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth ychwanegol ar gael i gefnogi gwaith grŵp y prosiect sy'n canolbwyntio ar Aberteifi.
- Mae'n bwysig parhau i fonitro tueddiadau. Efallai na fydd Effaith yr argyfwng Costau Byw yn dechrau cael ei weld tan nawr, ac efallai y bydd yr ychydig fisoedd nesaf yn dechrau dangos tueddiadau sy'n arwydd o'r argyfwng Costau Byw. Er enghraifft, yr effaith ar ad-hawlio meddiant morgais ac ad-hawlio landlordiaid) – Hwn yw'r cam cyntaf o gamau cyfreithiol i adfeddiannu eiddo, a gallai fod yn ardal i fonitro'n agos i weld a yw'r niferoedd yn dechrau cynyddu.

Amddifadedd (Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019):

Mae Teifi a Rhyd-y-Fuwch yn cael eu 'rhestru' yn y 2 uchaf ar draws Ceredigion, mae ardal Teifi yn safle 125/1909 dros Gymru a Rhyd-y-Fuwch 370/1909 dros Gymru. Gellir dadansoddi hyn ar draws 8 thema (Incwm, cyflogaeth, lechyd ac ati). Mae Teifi mewn safle ddifreintiedig iawn o fewn y themâu Incwm, Cyflogaeth, Diogelwch Cymunedol a Thai. Mae Rhyd-y-Fuwch hefyd yn sgorio'n ddifreintiedig iawn ar draws rhai ardaloedd ond yn ddiddorol yn sgorio'n uwch na Teifi o fewn y thema cyflogaeth.

Aelwydydd sy'n byw mewn tlodi:

Mae Data incwm y cartref yw rhestri ardaloedd o'r isaf i'r uchaf yn seiliedig ar incwm y cartref. Mae Rhyd-Y-Fuwch yn disgyn i rif 1 gyda'r incwm canolrif isaf sydd o bwysigrwydd, yn llawer yn is na'r ardal isaf nesaf sef Aberystwyth. Dyma'r unig ardal yng Ngheredigion gydag incwm canolrif cartref o 20-25k. Mae ganddi'r gyfran uchaf o aelwydydd sy'n is na'r incwm canolrifol 60% GB. Mae hyn yn rhoi mwy o dystiolaeth bod gan ardal Rhyd-y-Fuwch broblemau sylweddol o ran cyflogaeth ac incwm.

Cyfrif hawlwr:

Mae monitro'r cyfrif hawlwr yn parhau i fod yn rhan waith is-grŵp Tlodi'r BGC. Mae'n cofnodi nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn bennaf oherwydd eu bod yn ddi-waith. Gwelwyd cynnydd dramatig ym mis Mawrth 2020 pan darodd y pandemig am y tro cyntaf, ac yn gyffredinol, gwelwyd gostyngiad graddol yn y ffigurau wrth i'r cyfyngiadau godi, fodd bynnag, nid yw'r ffigurau'n dychwelyd i'r man lle'r oeddent cyn i Covid daro. Gallai hyn fod yn set arall o ddata i barhau i'w fonitro, a allai amlygu canlyniadau'r argyfwng Costau Byw.

Data tlodi plant:

Mae gennym fynediad at ddata tlodi plant sy'n dod o'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG). Mae hyn yn dangos y % o blant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel rhwng 2015-2021. O 2019 mae pob un o'r 3 ardal wedi gweld cynnydd. Mae Teifi wedi cynyddu o 33% i 43% rhwng 2020-201 ac fe welir cynnydd tebyg yn ardal Rhyd-y-Fuwch.

Prisiau eiddo:

Mae fforddiadwyedd llety yn fater pwysig yn genedlaethol ac yn lleol. Mae prisiau eiddo wedi bod yn ymchwyddo ers i'r pandemig daro'r sir am y tro cyntaf. Mae Ceredigion wedi gweld rhywfaint o'r cynnydd uchaf mewn pris eiddo. Gwelodd Rhyd-Y-Fuwch gynnydd o 45.2% ym mhrisiau eiddo yn ystod y 3 blynedd diwethaf. Gwelir newidiadau prisiau tai tebyg ym Mwldan - cynnydd o 31.9%. Mae hyn yn ei dro yn rhoi mwy o bwysau ar daliadau morgais ac aelwydydd.

Diogelwch Cymunedol:

Mae'r 3 ardal yn dangos tuedd ar i fyny yn nifer digwyddiadau diogelwch cymunedol a chynnydd ar y cyfan mewn troseddau treisgar a rhywiol.

10.4 Cwestiynau a Thrafodaeth

Rhannodd Peter Hughes (PH) o *Nyth Gwneud Cymru'n Glyd* bryderon ynghylch rhai o'r ystadegau a rannwyd, a nododd fod y wybodaeth hon yn ddefnyddiol i'w defnyddio i dargedu eiddo gyda *Gwybodaeth/taflenni postio ar gyfer cynllun Nyth-Gwneud Cymru'n Glyd* i sicrhau bod y negeseuon yn cyrraedd yr ardaloedd cywir. Nodwyd y byddai'n ddefnyddiol i wybod mwy am brisiau rhent yn ogystal â phrisiau gwerthu tai. Mae'n hysbys iawn bod landlordiaid naill ai'n gwerthu eiddo oherwydd prisiau uwch neu'n troi allan y rhai sy'n rhentu ar hyn o bryd ac yn ei roi yn ôl gyda phris rhent uwch. Mae'r wasgfa rhent yn broblem fawr mewn ardaloedd difreintiedig, yn enwedig pan fo prisiau tai yn codi, yn enwedig os nad yw'r budd-dal tai yn cyfateb i'r prisiau rhent cyfartalog yr ardal. Nododd Elaine Evans (EE) fod yna ganran uchel o bobl hŷn nad ydynt yn gweithio felly efallai nad oes ganddynt gymwysterau ac efallai bod angen edrych ar y data hwn ochr yn ochr â'r proffiliau oedran.

Nododd HLL y gellid cynnal maes gwaith sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â gweithwyr iechyd proffesiynol gyda'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau iechyd hirdymor / anabledd a'r boblogaeth sy'n heneiddio. Efallai y gellid gwneud linc rhwng amodau byw a'r rhai sy'n byw mewn tloedi. Mae cael presenoldeb mewn cymunedau drwy estyn allan i'r grwpiau hyn ar garreg eu drws yn hanfodol, yn ogystal â chael gwared ar stigma ynghylch cael mynediad i gymorth. Nododd Elaine Evans (EE) fod angen dod â'r ganolfan ddydd yn ôl i gefnogi pobl gyda lechyd Meddwl, Awtistiaeth +Anableddau.

Nododd Megan Harris (MH) fod rhai pobl yn aros mewn ardaloedd difreintiedig gan nad ydyn nhw'n gallu fforddio symud allan. Nododd hefyd ei bod yn bwysig nodi bod rhai unigolion wedi tyfu i fyny ar fferm ac yn penderfynu aros a gweithio ar y fferm, sy'n golygu na fyddent o reidrwydd wedi ennill cymwysterau. Yn ogystal, nodwyd bod angen dealltwriaeth bellach o'r hyn sy'n cael ei ystyried yn gymhwyster, ac a yw cyrsiau galwedigaethol yn cael eu cynnwys yn y term hwn.

Rhan 2:

10.5 Diweddariad BGC: Cynllun Llesiant Lleol 2023-28 ac ymgynghoriad cyhoeddus ar leoliad ysbyty gofal brys a wedi'i gynllunio newydd:

Cadarnhaodd Sara Dafydd (SD) fod ymgynghoriad wedi cau ar 31/1/2023. Derbyniwyd adborth a gwnaed gwelliannau i'r cynllun. Cyfiwynwyd y Cynllun i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) yn y cyfarfod diwethaf a cymeradwywyd y gwelliannau gan y Bwrdd. Mae pob aelod statudol o'r BGC yn y broses o gyflwyno'r Cynllun i'w gymeradwyo trwy eu trefniadau llywodraethu priodol. Cadarnhaodd SD eu bod wedi cael cadarnhad trwy e-bost bod Cynllun wedi'i gymeradwyo gan bob Bwrdd statudol. Bydd y Cynllun yn cael ei gyhoeddi ddechrau mis Mai yn unol â'r gofyniad statudol, cyn y gellir dechrau ar ei gyflwyno.

10.6 Is-grŵp Tlodi BGC: Adborth o'r gweithdy

Nododd HLL fod Is-grŵp Tlodi BGC ac Is-grŵp Llesiant a Mynd i'r Afael y Chaledi Gwella Cymuned Aberteifi wedi'i alinio gan alluogi creu cysylltiadau rhwng y ddau grŵp, gan rannu syniadau a'r ymarfer gorau.

Nododd Cathryn Morgan (CM) fod yr is-grŵp Tlodi wedi bod yn cyflawni'r Strategaeth Mynd Ir' Afael y Chaledi hyd yn hyn, a'i bod hi'n cefnogi'r syniad o ddod at ei gilydd i wneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â thlodi ledled Ceredigion. Wrth symud ymlaen, bydd yr is-grŵp Tlodi yn cyfrannu at y Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion, a bydd yr Is-grŵp Tlodi yn parhau i fod yn llais i bobl sy'n profi tlodi ac yn rhannu eu straeon i dynnu sylw'r BGC. Mae'r grŵp hefyd yn canolbwyntio ar grantiau ac adnoddau, gan sicrhau bod cyllid yn mynd allan drwy weithwyr rheng flaen. Cadarnhaodd CM fod llawer o linyddau i'r Cynllun Llesiant Lleol Ceredigion newydd, a bod yr Is-grŵp Tlodi yn sicrhau bod y camau gweithredu yn cael eu hystyried gyda thlodi mewn golwg.

Trafododd CM themâu y mae'r Is-grŵp Tlodi yn edrych arnynt ar hyn o bryd:

1. Economi gynaliadwy – Mae pobl yn ei chael hi'n anodd recriwtio i rolau ac i gynorthwyo mwy o bobl i gael mynediad i gyflogaeth, mae angen addasu'r amgylchedd cyflogaeth i'w wneud yn fwy cynhwysol. Mae hyfforddiant a phrentisiaethau i'w cael ledled Ceredigion ond mae angen ystyried llwybrau clir o brentisiaethau i gyflogaeth gyda ffocws ar dlodi.
2. Lles a thlodi yn Aberteifi – Er bod Is-grŵp Tlodi yn targedu Ceredigion gyfan, gallai'r grwpiau barhau i rannu ymchwil a ffyrdd newydd o weithio. Os yw'r gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu, gellir ailadrodd yr hyn sy'n cael ei wneud yn Aberteifi ar draws ardaloedd eraill. Holodd HLL a oedd mentrau cyfredol y gellid eu treialu yn Aberteifi oherwydd y data a dderbyniwyd yn rhan un o'r cyfarfod. Cadarnhaodd CM fod bwletin bob pythefnos yn cael ei gylchredeg ar hyn o bryd i'r Is-grŵp Tlodi a Rhwydwaith Fwyd Ceredigion, fodd bynnag, gellid rhannu hyn gyda'r Is-grŵp hwn wrth symud ymlaen.

GWEITHRED: Carys Huntly i anfon bwletin blaenorol at Sara Dafydd i'w gylchredeg i Is-grŵp Aberteifi.

Nododd CM bwysigrwydd hyrwyddo'r cymorth sydd ar gael i bobl a bwydo profiadau pobl yn ôl o rai o'r grantiau hyn fel y grant eco. Cytunodd HLL y dylid ystyried tlodi, costau byw a chaledi wrth gyflawni pob elfen o'r Cynllun Llesiant newydd. Cynigiodd HLL fod angen i'r cyfarfod nesaf ganolbwyntio ar raglen waith yr is-grŵp wrth symud ymlaen.

Nododd Rhiannon Ling (RL) fod Cymdeithas Tai Tai Wales & West (WWHA) yn bwriadu datblygu rhaglen haf yn Aberteifi gyda digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol dros y gwyliau haf 6 wythnos. Maent yn gobeithio trefnu hyn gyda thema wahanol ar gyfer pob wythnos, gan dargedu'r rhai sydd fwyaf mewn angen a chyflawni'r hyn sy'n ofynnol. I wneud hyn mae angen iddynt ddeall

y bobl sy'n byw yn yr ardaloedd hynny a pha gefnogaeth/gwybodaeth fyddai'n fuddiol. Nododd Wayne Thomas (WT) y gall Gwasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWFRS) fynychu'r digwyddiadau.

GWEITHRED: Cathryn Morgan i drafod gyda Rhiannon Ling i sicrhau fod y digwyddiadau mor gynhwysol â phosib.

GWEITHRED: SD i roi WT a RL mewn cysylltiad a'i gilydd i drafod rhaglen yr haf ymhellach.

10.7 Diweddariad Cronfa Ffyniant Gyffredin a phrosiectau datblygu Tref Aberteifi ar y cyd gyda Cyngor y Dref

Cadarnhaodd HLL fod rownd gyntaf y Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU wedi cau ddydd Sul 16/4/2023. Mae tîm o fewn y Cyngor ar hyn o bryd yn adolygu'r ceisiadau a gyflwynwyd ac yn gobeithio ei gwblhau'n gyflym, mae'r ail ddyddiad cau ym mis Mai. Ar ôl i brosiectau gael eu cymeradwyo byddai'n fuddiol cael dealltwriaeth o'r prosiectau a fydd yn cael effaith yn Aberteifi, yn enwedig o ran mynd i'r afael â chaledi. Mae angen ystyried sut y gall yr Is-grŵp weithio gyda'r prosiectau hynny i gefnogi mynd i'r afael â chaledi ledled Ceredigion ac yn enwedig yn Aberteifi.

Doedd Catrin George ddim yn gallu mynychu'r cyfarfod ond mae wedi anfon diweddariad ar rai o'r prosiectau:

Rhyngrwyd pethau - wedi'i gwblhau. Mae hwn yn ddarn o waith sy'n ceisio deall sut mae pobl yn symud o gwmpas a ble maen nhw'n mynd yn Aberteifi, bydd hyn yn ddefnyddiol iawn o ran cynllunio digwyddiadau.

Parc Natur Mwldan – Penodwyd Ymgynghorwyr Defnydd i Dir i ymgymryd â astudiaeth dichonoldeb. Maent yn edrych i ddatblygu parc natur ar gyfer yr ardal ac ar hyn o bryd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid.

10.8 Prosiect scopio ar gyfer Canolfan Lles (Ardal Aberteifi)

Cyflwynodd Carwyn Young (CY) ei hun i'r grŵp fel Rheolwr Corfforaethol Canolfannau Llesiant – mae ei rôl yn eistedd o fewn Porth Cymorth Cynnar. Mae CCC wedi ymrwymo i ddatblygu 3 Canolfan Lles yn y Gogledd, Canolbarth a De Ceredigion. Mae Canolfan Lles gyntaf y Sir wedi'i lleoli yn Llanbedr Pont Steffan ac mae bron wedi'i chwblhau o ran gwaith adeiladu, a gobeithio y bydd yn barod ar gyfer defnydd gan y cyhoedd erbyn diwedd mis Mai. Mae'r ganolfan hamdden draddodiadol wedi'i throsi'n gyfleuster hyblyg a modern.

Yn unol â'r Strategaeth Llesiant Gydol Oes, bydd y canolfannau hyn yn gwella lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Bydd y 3 chanolfan yn amrywio yn seiliedig ar wahanol anghenion lleol a gwahanol gyfleoedd yn yr ardaloedd. Y gobaith yw y gellir defnyddio lles corfforol fel catalydd ar gyfer gwella a chefnogi meysydd eraill fel iechyd meddwl. Mae'r ganolfan yn anelu i ehangu darpariaeth, a chynnal dull a gyfunwyd o wasanaethau ar-lein a chyswllt wyneb yn wyneb. Mae swyddogion yn deall pwysigrwydd cydlynu gyda sefydliadau eraill sydd wedi'i lleoli o gwmpas Aberteifi er mwyn osgoi cystadleuaeth a dyblygu gwasanaethau.

Safle presennol Aberteifi:

Ar hyn o bryd mae'r fîm yn edrych ar wasanaethau posibl y gellid eu darparu yn y ganolfan – Gwasanaethau mewnol CCC, Partneriaid BGC (arolwg ar-lein), sefydliadau addysg ac ati, ynghyd â lleoliadau ar gyfer y ganolfan. Mae amrywiaeth enfawr o wasanaethau posibl wedi'u nodi; Therapi Cerddoriaeth, Cwnsela, Sesiynau Gweithgaredd Corfforol, Cymorth Cyflogaeth, Gwasanaethau Llyfrgell, Cyflwyno Hyfforddiant ac ati. Mae ystyriaeth hefyd wedi'i roi i'r mathau o gyfleusterau y gallai fod eu hangen i gynnal y gwahanol wasanaethau; Cegin, Ystafell Synhwyrdd, Ystafell Ffitrwydd, Darpariaeth T.G., Derbynfa, Ystafelloedd Cyfarfod ac ati.

Mae'r camau nesaf yn cynnwys adolygu'r ymatebion diweddaraf i'r arolwg ynghyd â chynnal trafodaethau wyneb yn wyneb â grwpiau cymunedol lleol, a fydd yn debygol o gael eu cynnal ym mis Mehefin. Nododd CY bwysigrwydd cyflawni amcanion strategol y cyngor mewn modd cynaliadwy tra hefyd yn rheoli disgwyliadau ar yr hyn y gellir ei gyflawni.

Cwestiynau ac adborth:

Roedd HLL yn cefnogi'r syniad o ychwanegu gwerth i'r hyn sydd yma eisoes. Holodd HLL a allai'r is-grŵp hwn fod ynghlwm â chefnogi'r agwedd ymgysylltu yn Aberteifi i ddeall beth sy'n bwysig i bobl Aberteifi.

GWEITHRED: Hazel Lloyd-Lubran a Sara Dafydd i gysylltu â Carwyn Young ynghylch a all yr is-grŵp gefnogi'r broses ymgysylltu a sut y gall yr is-grŵp gefnogi'r broses ymgysylltu.

Nododd MH bwysigrwydd clywed lleisiau y rhai a glywir yn lai aml a sicrhau bod sgysiau yn cael eu cynnal gydag aelodau o'r gymuned nad ydynt fel arfer yn mynychu cyfarfodydd nac yn ymgysylltu. Atgyfnerthodd CM yr angen i gydweithio a sefydliadau eraill i ganfod cyfleoedd i rannu adnoddau a sicrhau nad oes dyblygu.

10.9 Eitem sefydlog: Oes angen i ni drafod â Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru ar unrhyw un o'r materion a godwyd?

Dim byd i'w drafod.

10.10 Unrhyw Ddiweddariadau pellach gan bartneriaid

Nododd HLL, er nad oedd Naomi McDonagh yn bresennol yn y cyfarfod hwn, mai hwn fyddai ei chyfarfod is-grŵp olaf yn Aberteifi fel Rheolwr Partneriaethau ac Argyfyngau Sifil Wrth Gefn. Mynegodd HLL ddiolch yn fawr ar ran y grŵp am ei holl ymdrechion a'i chyfraniad i waith y BGC. Roedd y grŵp yn dymuno'n dda iddi ar ei rôl newydd.

Cyfarfod nesaf: 11.07.23 am 10:00-12:00

DRAFT